Cyllid & Thollau EM

# Taflen ffeithiau am wiriadau treth

## Beth sy'n newid

O 4 Ebrill 2022 ymlaen yng Nghymru a Lloegr, ac o 2 Hydref 2023 ymlaen yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, bydd angen i chi gwblhau gwiriadau treth newydd gyda Chyllid a Thollau EM (CThEM) wrth wneud cais i adnewyddu'r trwyddedau canlynol:

- Gyrwyr tacsis a gyrwyr cerbydau hurio preifat
- Gweithredwyr cerbydau hurio preifat
- Swyddfeydd archebu
- Safleoedd masnachwyr metel sgrap
- Casglwyr metel sgrap sy'n symudol neu deithiol

## Sut y gallai'r newidiadau effeithio arnoch

Bydd yr hyn y mae angen i chi ei wneud yn dibynnu ar p'un a ydych yn gwneud cais am drwydded am y tro cyntaf neu a ydych yn gwneud cais dilynol, fel adnewyddu trwydded.

**Cael trwydded newydd**: Os ydych yn gwneud cais am drwydded am y tro cyntaf, ni fydd angen i chi gwblhau'r gwiriad treth. Fodd bynnag, bydd cyrff trwyddedu yn gofyn i chi ddarllen arweiniad CThEM ar yr hyn y mae angen i chi ei wneud i fod wedi'ch cofrestru'n gywir ar gyfer treth yn y dyfodol, a bydd angen i chi gadarnhau'ch bod wedi gwneud hyn.

**Adnewyddu trwydded**: Os byddwch yn adnewyddu'ch trwydded neu'n gwneud cais am drwydded ddilynol o dan gorff trwyddedu gwahanol, bydd yn rhaid i chi wneud gwiriad treth. Gallwch gwblhau'r gwiriad treth ar GOV.UK, drwy eich Cyfrif Porth y Llywodraeth. Os nad oes gennych gyfrif Porth y Llywodraeth eisoes, dylech greu un cyn adnewyddu'ch trwydded.

Dim ond ychydig funudau y dylai'r gwiriad treth ei gymryd, a dim ond ychydig gwestiynau y bydd angen i chi eu hateb i roi gwybod i CThEM sut rydych yn talu unrhyw dreth a allai fod yn ddyledus ar incwm yr ydych yn ei ennill o'ch masnach drwyddedig. Bydd arweiniad ar GOV.UK, a bydd unrhyw un sydd angen cymorth ychwanegol yn gallu cwblhau'r gwiriad treth dros y ffôn drwy ffonio llinell gymorth cwsmeriaid CThEM.

Pan fyddwch wedi cwblhau'r gwiriad treth, byddwch yn cael cod. Mae'n rhaid i chi roi'r cod hwn i'ch corff trwyddedu. Ni all y corff trwyddedu symud ymlaen â'ch cais am drwydded neu adnewyddiad hyd nes y bydd y gwiriad treth wedi'i gwblhau a'i fod wedi cael y cod.

Bydd eich corff trwyddedu ond yn cael cadarnhad gan CThEM eich bod wedi cwblhau'r gwiriad treth. Ni fydd ganddynt fynediad at wybodaeth am eich materion treth.

## Yr hyn y mae angen i chi ei wneud

Os nad ydych wedi cofrestru i dalu treth ar enillion o'ch masnach drwyddedig, ewch i GOV.UK i weld a oes angen i chi gofrestru cyn gynted â phosibl:

- os ydych yn gyflogai, gallwch ddod o hyd i wybodaeth am Dalu Wrth Ennill (TWE) drwy fynd ar GOV.UK a chwilio am
- os ydych yn hunangyflogedig, gallwch ddod o hyd i wybodaeth am gofrestru ar gyfer Hunanasesiad drwy fynd ar GOV.UK a chwilio am
- os ydych yn gweithredu drwy gwmni, gallwch ddod o hyd i wybodaeth am Dreth Gorfforaeth drwy fynd ar GOV.UK a chwilio am

Os dylech fod wedi eich cofrestru i dalu treth a'ch bod heb eich cofrestru, bydd CThEM yn gweithio gyda chi'n brydlon ac yn broffesiynol i'ch cael yn ôl ar y trywydd iawn. Eich cyfrifoldeb chi yw cael eich treth yn gywir, ond mae CThEM yma i helpu.

Gallwch gael help gan CThEM os oes angen cymorth ychwanegol arnoch, er enghraifft os oes angen gwybodaeth arnoch mewn fformat gwahanol neu os oes angen help arnoch i lenwi ffurflenni.

I gael arweiniad pellach ar y gwiriad treth, ewch i GOV.UK a chwilio am 'Complete a tax check for a taxi, private hire or scrap metal licence'.